IOPC

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct



# Cynllun Busnes 2022/23

# Cynnwys


## Rhagair a chyflwyniad 4

**Rhagair** 4

**Cyflwyniad** 6

**Cenhadaeth a gweledigaeth** 7

**Gwerthoedd** 8

## Ein gwaith 10

**Ymwybyddiaeth a hyder** 10

- Trosolwg 10
- Canlyniadau allweddol 11
- Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23 11
- Sut byddwn yn mesur ein cynnydd 14

**Atebolrwydd** 16

- Trosolwg 16
- Canlyniadau allweddol 17
- Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23 17
- Sut byddwn yn mesur ein cynnydd 20

**Arwain gwelliant** 22

- Trosolwg 22
- Canlyniadau allweddol 23
- Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23 23
- Sut byddwn yn mesur ein cynnydd 26

**Perfformiad** 27

- Trosolwg 27
- Canlyniadau allweddol 28
- Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23 28
- Sut byddwn yn mesur ein cynnydd 31

## Ariannu a risg 32

**Ariannu** 32

**Risg** 33

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol

**Croeso i'n cynllun busnes blynyddol cyntaf ar gyfer ein strategaeth gorfforaethol newydd 2022-27, 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'.**

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r hyn y byddwn yn ei gyflawni ym mlwyddyn gyntaf ein strategaeth bum mlynedd. Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi cynllun busnes newydd yn nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at ein gweledigaeth y gall pawb ymddiried yn yr heddlu a chael hyder ynddo. Rydym wedi gosod cynllun busnes uchelgeisiol ar gyfer 2022/23 er gwaethaf yr amgylchedd ariannol heriol.

Rydym eisiau adeiladu ar lwyddiannau ein strategaeth gyntaf, megis gwell amseroldeb yn ein hymchwiliadau, argymhellion dysgu aml ac effeithiol, ymgysylltu wedi'i dargedu â rhanddeiliaid a llais awdurdodol ar faterion plismona. Yn fewnol, roedd canlyniadau ein harolwg pobl wedi dangos cynnydd mewn sgoriau ymgysylltu â staff, gwell offer i staff wneud eu gwaith, ac ymateb wedi'i reoli'n dda i bandemig COVID-19.

Y flwyddyn ariannol hon byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein perfformiad gweithredol. Gwyddom fod ein gwaith yn mynd yn fwy cymhleth, felly rydym wedi buddsoddi yn ein timau ymchwiliadau a gwaith achos i sicrhau bod ganddynt y gallu a'r sgiliau angenrheidiol i fodloni'r galw cynyddol hwn. Rydym hefyd wedi rhoi cynllun ar waith i wella perfformiad ein proses adolygu o ystyried y cynnydd yn nifer a chymhlethdodau sy'n ein hwynebu nawr. Er mwyn olrhain cynnydd y cynllun hwnnw, rydym wedi sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol newydd i fonitro perfformiad.

Rydym yn parhau i nodi materion sy'n cael yr effaith fwyaf ar hyder y cyhoedd. Eleni rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein ffocws thematig ar wahaniaethu ar sail hil. Rydym hefyd wedi gwneud buddsoddiadau newydd yn ein gwaith yn edrych ar drais yn erbyn menywod a merched, sy'n parhau i fod yn bryder mawr i ni ac i'r cyhoedd. Bydd gwaith yn y maes hwn yn canolbwyntio ar gam-drin pŵer at ddiben rhywiol a cham-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu.




**Rydym wedi gosod cynllun busnes uchelgeisiol ar gyfer 2022/23 er gwaethaf yr amgylchedd ariannol heriol.**

Bydd mwyafrif y cwynion a wneir yn erbyn yr heddlu yn parhau i gael eu trin gan yr heddluoedd eu hunain. Byddwn yn cynyddu ein harolygiaeth o ymdrin ag achosion; rhannu arfer da, cyhoeddi cyngor ac arweiniad, a gwneud argymhellion ar gyfer gwella lle bod angen. Byddwn yn gwella ymhellach y ffordd rydym yn casglu ac yn defnyddio tystiolaeth, gan wneud y gorau o'r wybodaeth werthfawr a gawn o'n holl waith. Rydym eisiau ddefnyddio'r dystiolaeth hon i wneud y penderfyniadau cywir ac i ganolbwyntio ar y materion sy'n peri'r pryder mwyaf i'r cyhoedd.

Rwy'n ddiolchgar i'n cydweithwyr am eu hymrwymiad i'r gwaith gwerthfawr y maent yn gwneud, a'u hymdrechion o ddydd i ddydd, ar yr hyn a all yn aml fod yn achosion heriol a thrallodus. Nid yw hyn yn mynd heb ei gydnabod. Hoffwn hefyd ddiolch i'n Bwrdd Unedol sy'n parhau i fy nghynghori a'm herio ac yn bwysig iawn, sydd wedi helpu i lunio'r cynllun hwn.

Rwy'n gyffrous am y flwyddyn sydd i ddod. Rydym wedi gosod targedau heriol ond cyraeddadwy i'n hunain, ac edrychwn ymlaen at adrodd yn ôl i chi ar yr effaith rydym yn parhau i'w chael.



**Tom Whiting**
Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro

# Cyflwyniad

## Pwy ydym ni


Dyma’r flwyddyn gyntaf o gyflawni yn erbyn ein strategaeth Gorfforaethol newydd 2022/27 a’n pedwar amcan strategol newydd:

- ymwybyddiaeth a hyder: bod pobl yn gwybod am y system gwynion ac yn hyderus i’w ddefnyddio
- atebolrwydd: bod y system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy’n seiliedig ar dystiolaeth sy’n dwyn yr heddlu i gyfrif.
- arwain gwelliant: bod ein tystiolaeth a’n dylanwad yn gwella plismona
- perfformiad: bod yn sefydliad sy’n cyflawni perfformiad uchel.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn esbonio'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni o dan bob amcan strategol dros y flwyddyn i ddod, y gwaith y byddwn yn ei gyflawni a sut y byddwn yn monitro ein cynnydd. Mae ein hamcanion strategol yn egluro sut mae’r Cyfarwyddwr Cyffredinol a’r Bwrdd Unedol yn cyflawni eu swyddogaethau statudol, a nodir yn adrannau 10 a 10A(1) o *Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002*.

Datblygodd ein Bwrdd Unedol ein Cynllun Busnes a chytunwyd arno. Byddant yn goruchwylio’r broses o’i chyflawni, ynghyd â’n pwyllgorau archwilio a sicrwydd risg, a phobl a diwylliant, gan ddarparu her a chyfeiriad i’n gwaith.

Byddwn yn parhau i fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch ein perfformiad. Rydym wedi ymrwymo i, a byddwn yn adrodd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn y cynllun hwn. Rydym hefyd yn monitro ystod o fesurau ar draws system gwynion yr heddlu, nad ydym yn eu rheoli’n llawn, ond byddwn yn gweithio gydag eraill i ddylanwadu. Mae'r mesurau hyn yn rhoi mewnwelediad pwysig i sut mae system gwynion yr heddlu yn perfformio a beth yw barn pobl amdani.





Rydym yn cyhoeddi adroddiadau perfformiad misol a gwybodaeth arall am ein gwaith ar ein gwefan. I'r Swyddfa Gartref, yr Ysgrifennydd Cartref a'r Senedd, rydym yn rhoi sicrwydd parhaus ein bod yn cyflawni'r pethau y dywedasom y byddem yn eu gwneud a'n bod yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon.

Bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol. Mae hyn yn cyfrif am ein perfformiad yn erbyn ein cynllun busnes. Mae ein hadroddiad effaith blynyddol yn dangos sut mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth a'r ffyrdd rydym yn dylanwadu ar arferion plismona.

# Cenhadaeth a gweledigaeth

## Ein cenhadaeth yw:

gwella plismona trwy oruchwyliaeth annibynnol o gwynion yr heddlu, dwyn yr heddlu i gyfrif a sicrhau bod dysgu yn effeithio ar newid

## Ein gweledigaeth yw:

bod pawb yn gallu bod â ffydd a hyder yn yr heddlu.



# Gwerthoedd

**Datblygwyd ein gwerthoedd gan ein staff ac maent yn sail i'n holl waith. Mae gwerthoedd yn dylanwadu ar y gwaith rydym yn ei gyflawni a'n rhyngweithio â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid. Bydd ein staff, nawr ac yn y dyfodol, yn cael eu harwain gan y gwerthoedd hyn a byddwn yn ystyried pa mor dda rydym yn adlewyrchu'r rhain trwy arolygon a gweithgareddau ymgysylltu.**

## Dod o hyd i'r gwirionedd

Rydym yn teimlo'n freintiedig i fod yn geidwaid system gwyno'r heddlu. Rydym yn gwerthfawrogi ymddiriedaeth y cyhoedd a'r heddlu ac yn ymrwymo i fod yn gyfiawn ac yn deg wrth ddatgelu'r gwirionedd. Rydym yn cydnabod bod canlyniad cyfiawn yn dibynnu ar fod yn ddiduedd ac yn dryloyw wrth gyrraedd y gwirionedd am yr hyn a ddigwyddodd.

## Cynhwysol

Mae gennym ddiwylliant cynhwysol. Rydym yn deg ac yn ddiduedd wrth i ni drin pob unigolyn. Rydym yn gweithio ar draws ffiniau, yn fewnol yn ogystal ag yn allanol, yn cydweithio ac yn adeiladu perthnasoedd cryf.

## Grymuso pobl

Rydym yn credu y dylai pawb fod yn arweinydd ac â rhan mewn llunio cyfeiriad y sefydliad. Rydym yn darparu amgylchedd cefnogol a heriol lle gall pobl ffynnu a chyrraedd eu potensial. Rydym yn ymddiried yn ein pobl i wneud y pethau iawn. Rydym yn annog cymryd risgiau a fesurwyd a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Pan wneir camgymeriadau gwirioneddol, byddwn yn cynorthwyo pobl ac yn nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a gwella. Rydym yn sicrhau y gall pobl gyflwyno cwynion heb brofi triniaeth annheg.

## Bod yn ddygn

Mae ein gwaith yn gofyn i ni fod yn eofn, yn wydn ac wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i'r cyhoedd. Rydym yn ystyried ein dyletswyddau fel gweision cyhoeddus o ddifrif ac adlewyrchir ein hymrwymiad yn ein gwaith. Rydym yn cwrdd â heriau â dyfalbarhad i gyflawni nodau unigol a sefydliadol.

## Gwneud gwahaniaeth

Diffinnir gwerth ein gwaith nid yn unig yn ôl maint, ond yn ôl yr effaith sydd gan ein gwaith ar blismona a hyder y cyhoedd. Rydym yn diffinio ansawdd yn ôl pa mor dda mae ein gwaith yn bodloni anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar feysydd sy'n gwneud gwahaniaeth i'n cymunedau.


IOPC

# Ymwybyddiaeth a hyder

## Amcan strategol:

Pobl yn gwybod am y system gwynion a'u bod yn hyderus wrth ei ddefnyddio.

# Trosolwg

Mae annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o system gwynion yr heddlu ac ymgysylltu â hi yn flaenoriaeth i ni. Rhaid i'r cyhoedd wybod y gallant godi pryderon am ymddygiad yr heddlu, neu anfodlonrwydd â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, ac yr ymdrinnir â'u pryderon yn briodol.

Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth, yr arweiniad a'r gefnogaeth rydym ni, heddluoedd a chomisiynwyr heddlu a throsedd yn eu cynnig am system gwynion yr heddlu yn fwy hygyrch i bawb sydd ag achos i'w ddefnyddio. Bydd hyn yn cynnwys gweithio tuag at gynnig cymorth wedi'i deilwra ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion ychwanegol.

Mae gwella a chynnal hyder y cyhoedd yn un o'n dyletswyddau statudol craidd. Rydym yn gwybod y gall digwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth gael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd. Mae ein gwaith yn ei wneud yn ofynnol i ni gyfleu negeseuon heriol ar gyfer plismona, sydd o leiaf yn y tymor byr, yn gallu effeithio ar ganfyddiadau'r cyhoedd o gyfreithlondeb heddlu. Yr hyn y gallwn ei wneud i feithrin hyder ac ymwybyddiaeth yn y system gwynion yw ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid i ddeall yn well beth sy'n ysgogi hyder y cyhoedd mewn gwahanol gymunedau, defnyddio'r mewnwelediad hwn i lywio a gwneud dewisiadau sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd am ein gwaith. Bydd cyflawni hyn yn gofyn am ymdrech gydunol a chydgysylltiedig gan bawb sy'n darparu ac yn goruchwylio plismona. Ni all plismona wella heblaw y gwrandewir ar y materion sy'n peri pryder i gymunedau ac y gweithredir arnynt.

Mae ein hymdrechion i gynyddu ymgysylltiad yn ein strategaeth flaenorol wedi gwella ymwybyddiaeth o'r IOPC, yn enwedig ymhlith cymunedau Du a phobl ifanc sydd â'r lleiaf o hyder yn system gwynion yr heddlu. Yn 2021/22 cynhaliwyd mwy na 300 o gyfarfodydd rhanddeiliaid i wrando ar faterion sy'n peri pryder mewn cymunedau ac i ddweud wrthynt am y gwaith rydym yn gwneud. Rydym am fynd ymhellach eleni a chydweithio â rhanddeiliaid ar fwy o'n gwaith. Bydd hyn yn helpu i lywio'r achosion rydym yn ymchwilio iddynt yn annibynnol yn well, y ffordd orau o oruchwylio a gwella'r ffordd y mae heddluoedd yn ymdrin â chwynion, a llunio'r argymhellion a wnawn i wella plismona.

## Canlyniadau allweddol

1. **Ymddiriedir yn system gwynion yr heddlu i fynd i'r afael â phryderon yn briodol.**
2. **Mae'r rhai sydd â llai o hyder mewn plismona yn fodlon ac yn gallu defnyddio'r system gwynion i godi eu pryderon.**
3. **Mae trefniadau ar waith (fel gwybodaeth, arweiniad a chymorth) sy'n ei wneud hi'n hawdd gwneud cwyn.**
4. **Mae dealltwriaeth o bryderon cymunedol wedi llywio'r gwaith a wnawn.**

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23

### Gwella gwasanaethau ac ymwybyddiaeth

**Byddwn yn:**

- cyflwyno tîm newydd i ddarparu cymorth penodol i ddefnyddwyr gwasanaeth ag anghenion ychwanegol, er enghraifft pan fydd defnyddwyr gwasanaeth yn arbennig o agored i niwed (fel pobl sydd wedi profi cam-drin domestig neu bobl â chyflyrau iechyd meddwl), fel y gallwn ddarparu cefnogaeth sydd wedi'u teilwra'n well a gweithio'n fwy effeithiol gydag asiantaethau eraill
- monitro perfformiad y system gwynion (gan ddefnyddio data, ymchwil a chanlyniadau adolygiadau ac atgyfeiriadau), ymyrryd lle nad yw'r safonau gofynnol yn cael eu bodloni a chynhyrchu adroddiad blynyddol ar ganlyniadau ein hymchwiliadau annibynnol i godi ymwybyddiaeth o sut mae ein gwaith yn gwella plismona
- ymateb i tua 75,000 o geisiadau am wybodaeth, cyngor ac arweiniad a dderbynnir bob blwyddyn gan ein canolfan cyswllt cwsmeriaid. Byddwn yn parhau i ddysgu o'n camgymeriadau ein hunain drwy ymchwilio ac ymateb i gwynion am ein gwasanaeth o fewn 20 diwrnod gwaith. Byddwn yn esbonio pam pan nad yw hyn yn bosibl ac yn nodi pa mor hir y credwn y bydd yn cymryd.
- parhau i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ein traciwr canfyddiadau'r cyhoedd i'n helpu i ddeall y rhesymau dros, ac ymateb i, newidiadau yn hyder y cyhoedd drwy gydol y flwyddyn

## Cyfathrebiadau

**Byddwn yn:**

- rhannu gwybodaeth am ein gwaith gyda'r cyhoedd drwy amrywiaeth o sianeli ac ymgyrchoedd drwy:
  - darparu strategaeth cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ein hamlygrwydd gyda chynulleidfaoedd anoddach eu cyrraedd
  - canolbwyntio ein cyfathrebiadau ar feysydd thematig allweddol, gan gynnwys cyhoeddi crynodebau achos, canlyniadau ymchwiliadau, perfformiad yr IOPC a'r heddlu, data ymchwil ac argymhellion dysgu, i sefydlu'r IOPC fel arweinydd cydnabyddedig ar atebolrwydd yr heddlu a materion sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona
  - cyhoeddi mwy o adroddiadau a dogfennau yn Gymraeg ac mewn ieithoedd eraill y gofynnir amdanynt yn rheolaidd er mwyn cynyddu cyrhaeddiad a hygyrchedd ein gwaith
- adeiladu gwefan newydd i'w gwneud hi'n haws dod o hyd i wybodaeth ac arweiniad. Bydd dyluniad y wefan yn cynnig mwy o hygyrchedd gan ddefnyddio technoleg i ddarparu ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill a phobl â nam ar eu golwg, a bydd y cynnwys yn dangos sensitifrwydd gwell i anghenion ein cynulleidfaoedd amrywiol.
- cynnal digwyddiadau rhannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid ac aelodau o'r gymuned gan weithio gyda grwpiau sydd â hyder isel i barhau i wella ymwybyddiaeth a mynediad i'r system gwynion.

## Gwaith thematig

**Byddwn yn:**

- cynnal trosolwg wedi'i dargedu o'r modd y mae heddluoedd yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu a thrais yn erbyn menywod a merched. Byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau hynny i ddylanwadu ar waith eraill yn y maes hwn ac yn cyhoeddi argymhellion a chanllawiau yn ôl yr angen
- cynnal ymchwil i'r hyn sy'n effeithio ar hyder menywod a merched mewn plismona a'r rhwystrau i wneud cwynion
- gweithio'n agos gyda'n Grŵp Cynghori Cenedlaethol newydd ar Wahaniaethu ar sail Hil i'n helpu i lunio ein gwaith thematig a gweithredu fel her ac adborth adeiladol. Bydd y grŵp cynghori yn rhoi cyngor ar faterion a nodwyd mewn achosion IOPC ac ar feysydd posibl y mae angen i ni eu harchwilio, y camau sydd eu hangen i ysgogi neu wreiddio newid, a sut i wneud y mwyaf o effaith ein gwaith thematig gwahaniaethu hiliol.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

**Byddwn yn:**

- gweithredu strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid newydd sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r IOPC a'r system gwynion drwy:
  - darparu cynlluniau ymgysylltu cymunedol pwrpasol ledled Lloegr a Chymru
  - deall ac ymateb i faterion sy'n effeithio ar hyder (yn enwedig mewn grwpiau sydd â hyder isel) mewn plismona
  - hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth drwy ddatblygu system ganolog newydd ar gyfer rheoli gwybodaeth i randdeiliaid
- ymgysylltu'n rheolaidd â chymdeithasau staff ac undebau sy'n cynrychioli swyddogion heddlu a staff yr heddlu ar bob lefel i ddeall barn eu haelodau'n well, lle gallwn wella a lle gallwn gydweithio ymhellach.
- gweithio gyda'n Panel Ieuenctid i godi ymwybyddiaeth o'r IOPC a systemau cwynion yr heddlu ymhlith grwpiau hyder isel, ac eiriolwyr yn gweithio i'w cefnogi trwy:
  - gynnig rhaglen o sesiynau cyfoedion i gyfoedion gyda phobl ifanc a sesiynau gyda swyddogion heddlu, staff a gweithwyr proffesiynol eraill, i godi ymwybyddiaeth o'r IOPC a system gwynion yr heddlu
  - gynnal arolwg newydd dan arweiniad pobl ifanc, casglu barn a phrofiadau byw miloedd o bobl ifanc ar blismona a chwynion heddlu. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i greu argymhellion cenedlaethol ar gyfer newid.
- gynnal adolygiad o sut mae heddluoedd a chyrff plismona lleol yn sicrhau bod y system gwynion yn hygyrch i bawb a sut maent yn cefnogi ac yn helpu pobl sy'n cwyno i ddeall a chymryd rhan yn y broses. Byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella ac yn rhannu arfer da.

# Sut byddwn yn mesur ein cynnydd

**Byddwn yn anelu i:**

- gynyddu ymwybyddiaeth o'r IOPC gan 10% (fel y mesurir gan ein traciwr canfyddiadau'r cyhoedd. Gwybodaeth o'n Traciwr Canfyddiadau'r Cyhoedd 2021/22, pan ofynnwyd "Ydych chi wedi clywed am yr IOPC?" ymatebion cadarnhaol a dderbyniwyd: Yn gyffredinol – 55%; Pobl ifanc 18-24 oed – 40% ac ymatebwyr pobl Du, Asiaidd ac o gefndir lleiafrifoedd ethnig – 57%.)

**Byddwn hefyd yn monitro ac yn ymateb i:**

- gyfran y bobl o gefndir Du, Asiaidd neu o gefndir lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a menywod sy'n hyderus bod yr heddlu'n ymdrin â chwynion yn deg
- gyfran y cwynion gan yr heddlu a wneir gan bobl o gefndir Du, Asiaidd neu o gefndir lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a menywod

# Atebolrwydd

## Amcan strategol:

Mae’r system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy’n seiliedig ar dystiolaeth sy’n dwyn yr heddlu i gyfrif.

# Trosolwg

Mae ein gwaith yn dwyn yr heddlu i gyfrif mewn modd diduedd, teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Gwnawn hyn drwy ymchwilio'n annibynnol i gwynion a digwyddiadau difrifol, gosod safonau, a dwyn yr heddlu i gyfrif am y modd y maent yn ymateb i gwynion gan y cyhoedd. Rydym yn adolygu'r modd y mae heddluoedd yn ymdrin â chwynion ac ymchwiliadau lleol i farwolaethau ac anafiadau difrifol - gan wneud awgrymiadau i newid y canlyniadau hynny pan fod angen.

Ni allwn yn rhesymol hyrwyddo gwelliant ar draws y system gwynion os nad ydym yn canolbwyntio ar ein prosesau a'n canlyniadau ein hunain. Un ffocws allweddol ar gyfer y tair blynedd diwethaf oedd gwella ein hamseroldeb drwy gynyddu ymchwiliadau a gwblhawyd o fewn 12 mis o 68% yn 2018 i 90% yn 2021/2022. Ein ffocws eleni fydd cynnal amseroldeb ein hymchwiliadau, tra'n cynyddu ansawdd a deall anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelsom hefyd effaith newidiadau deddfwriaethol, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn llwythi achosion adolygu yn ein timau gweithrediadau cenedlaethol. Mae hyn wedi effeithio ar ein hamseroedd gweithredu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n gofyn am adolygiad o'r ffordd yr ymdriniodd yr heddlu â'u cwyn.

Er mwyn ymateb i her natur a'r cynnydd mewn llwythi achosion rydym yn buddsoddi'n helaeth yn ein gweithlu gweithrediadau, gan gynyddu nifer yr ymchwilwyr yn ein sefydliad i gynnal amseroldeb a'r gwasanaeth a ddarparwn. Rydym wedi ymrwymo i barhau i fodloni ein safonau defnyddwyr gwasanaeth [DOLEN] a'n fframwaith sicrhau ansawdd, a fydd yn cael ei ehangu y tu hwnt i'n gwaith ymchwilio eleni. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar feysydd ein timau gweithrediadau cenedlaethol i'w cefnogi i wella prydlondeb adolygiadau (i gyrraedd lefelau boddhaol erbyn 2024). Byddwn yn gweithio i sicrhau bod prosesau'n cael eu gwella i ddiwallu anghenion y cyhoedd yn y ffordd orau, nawr ac yn y dyfodol, ac i wella canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Fel rhan o'n cynllun strategol hir dymor 2022/27, byddwn yn cynyddu ein hymateb i faterion sy'n effeithio'n sylweddol ar hyder y cyhoedd. Eleni byddwn yn rhoi adnoddau ar waith i ddeall gwahaniaethu a thrais yn erbyn menywod a merched yn well. Yn yr un modd â'n gwaith presennol ar wahaniaethu ar sail hil, gall ein hymateb gynnwys cymryd mwy o achosion yn annibynnol, asesiad cadarn o'r modd y mae heddluoedd yn ymdrin â chwynion yn y maes hwn, ymchwil annibynnol, a gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi achwynwyr yn well.

Bydd yr ymgysylltu a'r cydweithio ystyrlon â rhanddeiliaid a chymunedau a drafodwyd uchod yn ein helpu i nodi'r materion y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt, a'r cymysgedd gorau o waith i ymateb i risgiau i hyder y cyhoedd. Bydd y cymysgedd hwn o waith yn helpu'r IOPC i adeiladu corff mwy pwerus o dystiolaeth nag y gallai un ymchwiliad ei gynhyrchu. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud argymhellion gwybodus i wella plismona a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ar y meysydd hynny sy'n peri'r pryder mwyaf.

## Canlyniadau allweddol

1. **Rydym yn goruchwylio'r broses o ymdrin â chwynion yn amserol, o ansawdd uchel ac yn gyson gan heddluoedd.**
2. **Mae'r IOPC a'r PCC yn cynnal adolygiadau sy'n annog sefydliadau i ddarparu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr mewn amgylchiadau lle nad yw cwynion wedi'u datrys yn lleol.**
3. **Mae’r IOPC yn cynnal ymchwiliadau amserol o ansawdd uchel sy’n mynd i’r afael â’r materion mwyaf difrifol a sensitif.**
4. **Mae ein gwaith yn dangos ymateb bwriadol ac ystwyth i faterion sy'n effeithio ar hyder mewn plismona.**

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23

### Gweithrediadau

**Byddwn yn:**

- adolygu tua 5,900 o achosion, y disgwyliwn i heddluoedd eu cyfeirio atom eleni, a phenderfynu sut y dylid ymchwilio iddynt
- ymchwilio'n annibynnol i'r achosion mwyaf difrifol o gamymddwyn a llygredd sy'n ymwneud â'r heddlu. Mae hyn yn cynnwys achosion sy'n ymwneud â thorri Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. (Mae Erthygl 2 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan y bydd hawl pawb i fywyd yn cael ei warchod gan y gyfraith)
- ymdrin ag ychydig llai na 1,800 o geisiadau a ragwelir am adolygiad gan aelodau o'r cyhoedd sy'n anfodlon â'r ffordd yr ymdriniodd yr heddlu â'u cwyn. Gwneud argymhellion i newid canlyniadau pan fod angen
- adolygu tua 950 o achosion yn ymwneud â marwolaeth neu anaf difrifol yn dilyn cyswllt â’r heddlu yr ymchwiliwyd iddo gan yr heddlu, i asesu os ydynt wedi cael eu trin yn briodol ac a ddaethpwyd i’r canlyniad cywir

- gweithredu rhaglen wella ar gyfer ein timau ymchwiliadau cenedlaethol a chraidd i fynd i'r afael â pherfformiad o ran sut rydym yn ymdrin ag adolygiadau ac ymchwiliadau. Rydym wedi buddsoddi yn hyn i sicrhau bod y prosesau cywir ac adnoddau digonol ar waith i fodloni'r galw cynyddol am adolygiadau a'r cymhlethdodau sy'n deillio o newidiadau a gyflwynwyd yn 2020. (Yn ogystal ag ailwampio'r IPCC fel yr IOPC, mae *Deddf Plismona a Throsedd 2017* hefyd yn nodi newidiadau i system gwynion ehangach yr heddlu – gan gynnwys rhoi pwerau ychwanegol i'r IOPC. Daeth mwyafrif y newidiadau a effeithiodd ar yr IOPC i rym yn gynnar yn 2020. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan.)
- cyhoeddi canllawiau diwygiedig i dystion yr heddlu ar y ddyletswydd i gydweithredu ag ymchwiliadau'r IOPC a gweithio gyda chymdeithasau staff a rhanddeiliaid plismona eraill, gan nodi disgwyliadau clir ar gyfer pob parti.
- cwblhau ein hymchwiliad i drasiedi Hillsborough a chreu gwefan bwrpasol i'r cyhoedd gael mynediad i ragor o wybodaeth am ein gwaith a'n canfyddiadau. Fel rhan o hyn, byddwn yn trosi deunydd o'n hymchwiliad i fformat y gellir ei weld yn ddigidol ac yn asesu ac yn prosesu'r holl gofnodion a gymerwyd neu a grëwyd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â *Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958* ac yn cadw deunydd ar gyfer mynediad cyhoeddus yn y dyfodol.

## Ansawdd

**Byddwn yn:**

- blaenoriaethu prydlondeb, ond gyda ffocws cynyddol ar ansawdd i sicrhau bod canlyniadau yn diwallu anghenion ein defnyddwyr. Byddwn yn:
  - buddsoddi mewn tîm sy'n ymroddedig i bolisi, safonau a chanllawiau gweithredol. Bydd hyn yn datblygu ac yn gwella cynnwys ein Llawlyfr Gweithrediadau i gefnogi arfer cyson a gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel (Mae ein Llawlyfr Gweithrediadau mewnol yn cynnwys y canllawiau, y templedi a'r dogfennau sydd eu hangen ar staff er mwyn cyflawni ein gwaith gweithredol.)
  - adolygu a gwella ein prosesau ar gyfer rheoli'r llwyth achosion ôl-ymchwiliad a gweithio gydag eraill i wella prydlondeb achosion sy'n dilyn ein hymchwiliadau. Fel rhan o hyn, byddwn yn gweithredu safonau gofynnol ôl-ymchwiliad, gan sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i dderbyn gwasanaeth o ansawdd uchel, hyd yn oed ar ôl i ymchwiliad ddod i ben.
  - gwreiddio technegau ymarfer adferol i helpu cydweithwyr yr IOPC i gael sgyrsiau mwy effeithiol gyda rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth, gan ganolbwyntio ar ddod o hyd i atebion i broblemau a chasglu adborth ar gyfer dysgu yn y dyfodol

- gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd newydd ar gyfer ein gwaith ymchwiliadau mawr. Bydd defnyddwyr gwasanaeth sy'n ymwneud â rhai o'n hachosion mwyaf difrifol a chymhleth yn elwa ar fwy o sicrwydd ansawdd ein gwaith
- cadw ein hachrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer® am bedwaredd flwyddyn ac archwilio ffyrdd o ddangos ymhellach ein hymrwymiad i ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn

## Atebolrwydd

**Byddwn yn:**

- cyflwyno achosion mewn gwrandawiadau disgyblu sy’n deillio o ymchwiliadau annibynnol lle mae’r heddlu’n anghytuno os oes angen gwrandawiad neu am resymau’n ymwneud â hyder y cyhoedd yn y system
- goruchwylio a gwella safonau yn y modd yr ymdrinnir â chwynion yn lleol gan heddluoedd a chefnogi cyrff plismona lleol i gyflawni eu swyddogaeth adolygu
- codi safonau o ran sut yr ymdrinnir â chwynion am wahaniaethu drwy gyhoeddi cyngor ac arweiniad ar arfer gorau ac ymyrryd lle nad yw'r safonau gofynnol yn cael eu bodloni. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar wneud penderfyniadau yn ein gwaith ein hunain
- ymateb i bryderon a godwyd am nodweddion plismona sy’n niweidio’r cyhoedd, gan weithio gyda’r Coleg Plismona ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) i ymchwilio ac argymell gwelliannau i blismona mewn ymateb i uwch-gwynion.
- datblygu canllawiau mewnol i wneud penderfyniadau a rhoi hyfforddiant ar waith i wella ein heffeithiolrwydd o ran deall a nodi materion sy'n ymwneud â gwahaniaethu a thuedd, a gwneud penderfyniadau cyson.

# Sut byddwn yn mesur ein cynnydd

**Rydym yn anelu at:**

- cwblhau 85% o ymchwiliadau o fewn 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr. Mae ymchwiliadau mawr yn ymchwiliadau cymhleth ar raddfa fawr a fyddai'n cymryd capasiti sylweddol o'n tîm gweithrediadau rhanbarthol. Rheolir y rhain gan ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawr.)
- cwblhau 33% o ymchwiliadau o fewn 6 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)
- penderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 80% o achosion a gyfeiriwyd atom o fewn 3 diwrnod gwaith
- sicrhau mai'r amser cyfartalog a gymerir i gwblhau adolygiad yw 134/154/164/150 o ddiwrnodau gwaith (ar gyfer chwarteri 1-4 yn ôl eu trefn) o dderbyn papurau cefndir, tra byddwn yn cwblhau ein gwaith gwella
- sicrhau mai'r amser cyfartalog a gymerir i adolygu ymchwiliad i farwolaeth neu anaf difrifol a ymchwiliwyd yn lleol yw 30 diwrnod gwaith ar ôl derbyn papurau cefndir
- cwblhau 75% o brif elfennau gweithredu ein Cynllun Ansawdd ar gyfer 2022/23.
  - byddwn yn hyfforddi staff gweithrediadau a chyfreithiol ar ein safonau ansawdd. Mae'r safonau hyn yn ymgorffori ein gofynion deddfwriaethol a rheoliadol, a safonau gwasanaeth. Mae'r safonau ansawdd yn mesur pa mor dda y mae staff yr IOPC sy'n gweithio ar ymchwiliadau ac adolygiadau annibynnol yn bodloni'r addewid i'n defnyddwyr gwasanaeth ynghylch yr hyn y gallant ddisgwyl gennym.
  - cynnal adolygiad goruchwylio ansawdd i nodi'r cryfderau a'r gwendidau cymharol o ran goruchwylio achosion o fewn yr IOPC. Mae hyn yn darparu swyddogaeth rheoli ansawdd hanfodol wrth gynnal ymchwiliadau annibynnol.
  - darparu cynhyrchion adrodd, gweithdrefnau a llywodraethu fel y gall uwch arweinwyr reoli ein safonau gofynnol yn effeithiol a chadw atynt yn uniongyrchol

**Byddwn hefyd yn monitro ac yn ymateb i:**

- gyfran yr ymchwiliadau lle mae'r weithdrefn canlyniadau a argymhellir wedi'i chwblhau o fewn 12 mis i'n hadroddiad terfynol
- gyfran yr adolygiadau a gadarnhawyd gan yr IOPC a chyrff plismona lleol
- brydlondeb ymdrin â chwynion heddluoedd
- brydlondeb y ffordd yr ymdrinnir ag adolygiadau gan gyrff plismona lleol
- ganlyniadau cwynion gan y cyhoedd
- ganlyniadau yn dilyn ymchwiliadau'r IOPC (cyfran y canfyddiadau achos i ateb wedi'u profi)

# Arwain gwelliant

## Amcan strategol:

Mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.

# Trosolwg

Mae'r gwaith a wnawn i olrhain canfyddiadau'r cyhoedd o system gwynion yr heddlu yn llywio ein gwaith yn gyson. Bydd hyn yn parhau i fod yn fesur o lwyddiant o ran gweithredu dysgu ac arwain gwelliant ar draws plismona a’r system gwynion.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd atebolrwydd ar gyfer rhoi dysgu ar waith ac yn croesawu adroddiad Pwyllgor Materion y Swyddfa Gartref. Mae’r adroddiad llawn ar gael ar dudalen wê Senedd y DU: Pwyllgor Ymddygiad a Chwynion yr Heddlu - Pwyllgor Materion Cartref. Argymhellodd ein bod yn mynd ati’n rhagweithiol i alw’r rhai sy’n gyfrifol am oedi neu sy’n gwrthod cydweithredu ag ymchwiliadau i gyfrif. Rydym hefyd wedi amlinellu uchod ein cynllun i gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer tystion yr heddlu ar y ddyletswydd i gydweithredu.

Gan ddefnyddio ein safle unigryw fel corff annibynnol, rydym am ddatblygu llais cryfach, dibynadwy ac awdurdodol i berswadio plismona i newid lle bod angen. Byddwn yn parhau i amlygu arfer da, gan ddefnyddio cyhoeddiadau fel ein hadroddiad effaith blynyddol ac adroddiad ystadegau marwolaethau i ddangos lle mae gwelliannau wedi’u gwneud. Byddwn yn gweithio i berswadio prif gwnstabliaid, comisiynwyr heddlu a throseddu ac eraill i roi ein hargymhellion ar waith.

Byddwn yn defnyddio’r dystiolaeth a gasglwn a’n harbenigedd i fewnbynnu a dylanwadu ar ymholiadau parhaus ynghylch trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys adolygiadau Casey ac Angiolini o blismona ac i amlygu meysydd i’w gwella. (Mae’r Farwnes Louise Casey yn arwain adolygiad annibynnol i ddiwylliant a safonau’r Heddlu Metropolitan yn dilyn llofruddiaeth Sarah Everard. Mae’r Rt Hon Fonesig Elish Angiolini QC yn arwain ymchwiliad dwy ran i fynd i’r afael â’r materion a godwyd yn sgil llofruddiaeth Sarah Everard.) Byddwn yn buddsoddi adnoddau yn ein tîm goruchwylio i archwilio’r modd y mae heddluoedd yn ymdrin â chwynion ac achosion o gamymddwyn sy’n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched. Byddwn yn cynyddu ein goruchwyliaeth ac yn rhannu'r hyn a ddysgir o'r achosion hyn.

Drwy'r gweithgareddau a nodir yn ein dau amcan strategol cyntaf, byddwn yn sicrhau bod ein gwaith yn parhau i fynd i'r afael â materion fel llygredd ac ymddygiad gwael. Byddwn yn canolbwyntio nid yn unig ar ymddygiad unigolion, ond hefyd ar faterion systemig yn ymwneud â pholisi, hyfforddiant, ymarfer, arweinyddiaeth, a diwylliant.

## Canlyniadau allweddol

1. **Rydym yn gweld tystiolaeth o welliannau mewn polisi, arfer a diwylliant plismona o ganlyniad i'n gwaith.**
2. **Rydym yn dylanwadu ac yn cynnull amrywiaeth o bartneriaid i weithio gyda ni i ddylanwadu ar newid.**
3. **Mae'r IOPC yn cael ei gydnabod fel arweinydd o ran gwella plismona a llais cywir ac annibynnol y gellir ymddiried ynddo.**

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23

### Cydweithio

**Byddwn yn:**

- gweithio gyda'r Coleg Plismona, HMICFRS, y Swyddfa Gartref ac eraill, i ymateb i feysydd sy'n peri pryder mewn plismona a gwella gweithrediad ein hargymhellion dysgu
- gweithio gyda'r Coleg Plismona, gan ddefnyddio tystiolaeth o'n gwaith i gefnogi'r gwaith o adolygu a gweithredu cod moeseg diwygiedig ar gyfer plismona
- cydweithio â HMICFRS ar arolygiadau sy'n mynd i'r afael yn well â'n hargymhellion ac olrhain effaith ein gwaith ar blismona rheng flaen
- ymgysylltu'n rheolaidd ag adrannau safonau proffesiynol rhanbarthol, yng nghyfarfodydd cyrff plismona lleol, ac mewn digwyddiadau ar gyfer y rhai sy'n ymdrin â chwynion ac adolygiadau i ddeall yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda. Byddwn yn cynhyrchu canllawiau a chyhoeddiadau i rannu arfer effeithiol a gwelliannau mewn safonau ymdrin â chwynion.

## Dylanwadu ar blismona

- gwneud argymhellion o ansawdd uchel i wella arferion, arweinyddiaeth, a diwylliant yr heddlu mewn ymateb i achosion unigol a thystiolaeth o'n ffocws thematig ar wahaniaethu ar sail hil a thrais yn erbyn menywod a merched (VAWG).
- parhau â'n ffocws ar wahaniaethu ar sail hil drwy oruchwylio gweithrediad ein hargymhellion dysgu. Nodwyd rhain drwy gydol y gwaith ar wahaniaethu ar sail hil ac fe gwnaed i annog arfer da a newid yn genedlaethol
- cyflwyno ein ffocws thematig nesaf – (VAWG). Byddwn yn nodi materion ac yn gwella plismona yn y maes hwn drwy:
    - nodi a rhannu'r hyn a ddysgwyd o achosion VAWG i wella arferion plismona ac atal niwed yn y dyfodol
    - sicrhau bod y cyhoedd yn deall ein rôl o ran y modd y mae'r heddlu'n delio ag achosion VAWG a chynyddu ein trosolwg o'r modd yr ymdrinnir ag achosion sy'n ymwneud â VAWG, gan gynnwys ymgysylltu â dioddefwyr a'u trin, atgyfeirio, a thrin achosion
    - gwella ein heffeithiolrwydd gweithredol canfyddedig a gwirioneddol wrth ymdrin â materion yn ymwneud â VAWG. Datblygu ein harbenigedd presennol ar ymdrin ag ymchwiliadau ac adolygiadau yn ymwneud â cham-drin domestig, cam-drin safle at ddiben rhywiol, a stelcio. Sicrhau bod ein staff yn deall y materion cymdeithasol ehangach o fod yn agored i niwed, rhagfarn, misogyny, a gwahaniaethu strwythurol, ac yn gallu cyfathrebu am y materion hyn yn effeithiol

## Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwaith

**Byddwn yn:**

- cyhoeddi tri rhifyn o'n cylchgrawn Learning the Lessons - gan gynnwys argraffiad arbennig yn canolbwyntio ar wahaniaethu a fydd yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'n gwaith, astudiaethau achos, erthyglau, enghreifftiau o arfer gorau ac argymhellion i ysgogi gwelliant. Bydd y ddau fater sy'n weddill yn canolbwyntio ar gam-drin pŵer at ddiben rhywiol a delio â galwadau. Byddwn yn rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau bod ein cylchgronau yn cyrraedd mwy o swyddogion heddlu rheng flaen
- cynhyrchu ein hadroddiad effaith blynyddol sy'n dangos sut mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth ac yn dylanwadu ar welliannau i arferion plismona
- cyhoeddi adroddiad ystadegau marwolaethau blynyddol ar gyfer Lloegr a Chymru. Bydd hyn yn llywio trafodaethau rhwng heddluoedd a rhanddeiliaid, gan gynnwys y byrddau gweinidogol ar farwolaethau yn y ddalfa, i alluogi gwaith traws-lywodraethol ac amlasiantaethol, gan atal marwolaethau pellach mewn cyswllt â'r heddlu neu ar ôl hynny lle bod modd.
- casglu, dadansoddi a chyhoeddi data ar gwynion gan bob heddlu er mwyn llywio ein harolwg o'r system. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi ystadegau cwynion blynyddol yr heddlu ar gyfer holl heddluoedd Lloegr a Chymru. Byddwn hefyd yn parhau i adolygu a gwella'r data a gyhoeddir gennym
- sefydlu ein rôl fel arweinydd wrth wella plismona trwy amlygu a rhannu arfer da gyda heddluoedd a chyrff plismona lleol. Er enghraifft, yr IOPC yw'r awdurdod cydnabyddedig ar ddigwyddiadau traffig ffyrdd sy'n ymwneud â'r heddlu a all roi cyngor ar sut i leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy hysbysu a dylanwadu ar arferion plismona trwy ddull sy'n seiliedig ar ddysgu.
- cefnogi ein rhwydweithiau pwnc i ddatblygu gwybodaeth arbenigol a rhoi cyngor ac arweiniad i'n cydweithwyr a rhanddeiliaid i wella ein harferion ein hunain ac arferion yr heddlu. Mae hyn yn cynnwys gwaith parhaus ar weithredu deddfwriaeth newydd ar yrru gan yr heddlu fel rhan o *Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022*.

# Sut byddwn yn mesur ein cynnydd

**Rydym yn anelu i:**

- sicrhau bod 80% o'n hargymhellion dysgu paragraff 28A yn cael eu derbyn gan heddluoedd. (Gall yr IOPC wneud argymhellion paragraff 28A o dan Atodlen 3 o *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Gallwn argymell newid i bolisi lleol neu genedlaethol, canllawiau, neu hyfforddiant i wella arfer neu atal rhywbeth a aeth o'i le rhag ddigwydd eto. Rhaid i heddluoedd a sefydliadau ymateb i argymhellion paragraff 28(a) o fewn 56 diwrnod a chyhoeddir y ddau argymhelliad a'u hymatebion ar ein gwefan.
- cynnydd o 3% yn nifer cymedrig (neu gyfartalog) y rhanddeiliaid plismona ac atebolrwydd sy'n meddwl ein bod yn effeithiol o ran rhannu'r hyn a ddysgwyd er mwyn gwella arferion plismona

# Perfformiad

## Amcan strategol:

Sefydliad sy'n darparu perfformiad uchel

# Trosolwg

Rydym yn ystyried ein hunain yn gyflogwr da ac yn lle y mae pobl eisiau gweithio ynddo. Mae hyn wedi'i brofi ymhellach gan ein hymateb i'r pandemig Covid-19. Mae'n allweddol bod ein staff yn parhau'n llawn cymhelliant, yn ymgysylltu ac yn falch o weithio i'r IOPC. Mae ein harolwg staff 2022 diweddar wedi dangos gwelliannau o ran ymgysylltu, a ffocws ein staff yn 2022/23 fydd gwella ein cynnig lles a chymorth i staff.

Nod yr IOPC yw cael ei gydnabod fel sefydliad sy'n cael ei yrru gan werth, sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym wedi ymrwymo i ddangos cydraddoldeb a chynhwysiant yn allanol ac yn fewnol. Hon fydd yr ail flwyddyn i ni redeg ein rhaglen darpar weithwyr proffesiynol. Mae'r rhaglen yn darparu profiad datblygu i bobl o gymunedau amrywiol sy'n aml yn anodd i ni eu cyrraedd neu sy'n cael eu tangynrychioli yn ein sefydliad. Gyda 42% o recriwtiaid 2021/22 yn mynd ymlaen i sicrhau cyflogaeth hir dymor yn yr IOPC, mae ein rhaglen wedi rhoi cyfleoedd swyddi gwirioneddol i bobl.

Er ein bod yn cadw ein nod o fod yn lle gwych i weithio, mae ein strategaeth newydd yn galw am ffocws ychwanegol ar alluogi perfformiad uchel a chefnogi newid. Mae'n hanfodol bod gan ein staff y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt i berfformio'n dda i gyflawni ein strategaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, rydym yn adolygu hyfforddiant ac achrediad ein hymchwilwyr i sicrhau ei fod yn gwrthsefyll craffu allanol, a'i fod yn debyg i raglen proffesiynoli ymchwiliadau (PIP) 1 a 2 gan y Coleg Plismona.

Mae'n hanfodol bod gan staff nid yn unig y sgiliau, ond hefyd yr offer i berfformio'n dda. Rydym wedi gweld llwyddiant mawr o greu desg wasanaeth fewnol, dadgyfuno, a symud i storfa bell ar gyfer ein dogfennau. Mae'r rhain wedi cynyddu effeithlonrwydd ac wedi galluogi staff i weithio'n fwy call. Eleni bydd mwy i'w wneud i wella ein systemau craidd, i sicrhau ein bod yn gynhyrchiol ac yn effeithiol yn yr hyn a wnawn. Rydym yn canolbwyntio ar gyflwyno newidiadau i systemau, gan integreiddio ein cofnodion a'n systemau achos yn well, er mwyn annog mwy o gydweithio.

Rydym hefyd yn buddsoddi mewn gwell llywodraethu data. Bydd hyn yn cefnogi'r sefydliad i ddeall a defnyddio ein data yn well, gan gynhyrchu'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i gyflawni ein hamcanion strategol eraill. Bydd safoni ac effeithlonrwydd ar draws defnyddio a dadansoddi data hefyd yn arbed amser, gan ganiatáu i ni wella ein gwasanaeth yn fewnol ac yn allanol.

Yn unol â'n hymrwymiad i uchelgeisiau cynaliadwyedd y llywodraeth, byddwn yn defnyddio'r cyfleoedd a'r galwadau sydd wedi dod i'r amlwg ar ôl pandemig Covid-19 i reoli ein hystadau yn y ffordd fwyaf effeithiol. Bydd ein harferion recriwtio a'n harlwy gweithio hybrid hefyd yn cefnogi rhaglen Lleoedd ar gyfer Twf y Llywodraeth.

## Canlyniadau allweddol

1. **Mae uwch arweinwyr yn gweithredu yn unol â'n gwerthoedd ac mae ganddynt gynllun clir ar gyfer y dyfodol.**
2. **Mae'r IOPC yn lle gwych i weithio i'n pobl.**
3. **Rydym yn datblygu galluoedd yn y dyfodol a fydd yn galluogi perfformiad uchel.**
4. **Byddwn yn gwneud defnydd deallus o wybodaeth a data.**
5. **Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd gost-effeithiol a chynaliadwy.**

## Beth fyddwn yn gwneud yn 2022/23

### Arweinyddiaeth

Byddwn yn:

- cwblhau ein canolfannau datblygu arweinyddiaeth i asesu ymddygiad a sgiliau ein rheolwyr yn unol â'r siarter arweinyddiaeth, gan arwain at raglenni datblygu pwrpasol, i gynyddu perfformiad, gallu a hygrededd Arweinyddiaeth.
- Rhoi ein strategaeth pobl ar waith i gefnogi perfformiad uchel, gan wreiddio ein siarter Arweinyddiaeth, cwblhau cynllunio'r gweithlu i ymdrin â marchnad dalent sy'n newid, a gwreiddio diwylliant cefnogol, parchus, datblygiadol ar gyfer pob cydweithiwr nawr ac am oes ein strategaeth

- datblygu a gweithredu ein strategaeth cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth (ED&I). Bydd hyn yn sicrhau bod ED&I yn sail i'n holl waith ac yn arwain yr IOPC tuag at ddod yn sefydliad sy'n ddiwylliannol gymwys. (Defnyddiwn y term "yn ddiwylliannol gymwys" i ddisgrifio'r wybodaeth, yr agweddau a'r sgiliau sydd eu hangen i ddangos sensitifrwydd ac empathi wrth weithio gydag eraill o gefndiroedd gwahanol, sy'n bwydo'n uniongyrchol i'n gwaith.) Er enghraifft, byddwn yn dechrau gweithio i leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ethnigrwydd ac yn adrodd ar ein cynnydd, gan gynnig sicrwydd bod gennym weithle amrywiol a theg.
- gweithredu'r argymhellion a nodir yn ein strategaeth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref a gwreiddio canfyddiadau yn ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad cyfnodol o'r IOPC, a chynllunio a gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt.

## Datblygiad staff, perfformiad a lles

Byddwn yn:

- gwreiddio ein strategaeth lles i wella'r hyn rydym yn cynnig a gwella meysydd a amlygwyd yn arolwg staff 2022, megis lleihau straen sy'n gysylltiedig â gwaith
- datblygu rhaglen achredu newydd ar gyfer ymchwilwyr. Mae hwn yn gyfle i symleiddio ein proses, gwella hygrededd yn allanol a chynyddu ymgysylltiad staff, datblygiad gyrfa a chadw
- creu llwybr datblygu gradd gyrfa newydd ar gyfer ymchwilwyr. (Mae graddau gyrfa yn raddau cysylltiedig sy'n caniatáu i gydweithwyr symud ymlaen heb fod angen dyrchafiad ffurfiol.) Byddwn yn cydnabod profiad a sgil cydweithwyr mewn rolau gweithredol, gan wella eu hygrededd a chynyddu ein cynnig i ddechreuwyr newydd mewn gweithrediadau
- datblygu a sefydlu ein system olrhain ymgeiswyr newydd a fydd yn gwella ein gallu i ddenu ymgeiswyr, darparu proses ymgeisio ddi-dor, gallu monitro demograffeg ymgeiswyr, a symleiddio ein prosesau mewnol

## Datblygu ein galluoedd a'n seilwaith

Byddwn yn:

- dechrau ymgorffori ein strategaeth ddata i sicrhau bod ein data'n ddigonol i gyflawni ein hamcan i fod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata drwy hyrwyddo newidiadau diwylliannol a dulliau arloesol o weithio
- buddsoddi mewn tîm llywodraethu data arbenigol i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein strategaeth ddata a:
  - gwella ansawdd ein data o'r dechrau i'r diwedd
  - adeiladu diwylliant data cryf, gan sicrhau bod pawb yn gweithio i'r un safonau/metrigau a chynyddu'r tebygolrwydd o wreiddio prosiectau data yn llwyddiannus
  - sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir a bod y gwaith a wnawn yn cael ei arwain gan ddata, gan gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol Strategaeth 2
- cyflawni ein prosiect system rheoli dogfennau electronig i'w wneud yn haws i'r sefydliad greu, storio a rheoli ein cofnodion. Byddwn yn cynnig storfeydd cofnodion mwy soffistigedig sy'n ein galluogi i gydymffurfio ag arfer da rheoli cofnodion
- datblygu a gweithredu ein system rheoli achosion newydd i gydgysylltu'r holl weithgareddau gweithrediadau a chefnogi ein gwaith i gwblhau adolygiadau achos yn amserol.
- dechrau gweithio i roi ein technoleg newydd a strategaeth ddigidol ar waith, gan sicrhau ein bod yn "cael y pethau sylfaenol yn iawn" gyda'r offer technoleg presennol sydd gennym, gan gynyddu ein gallu fel busnes digidol modern a chyflawni ein seiber-hanfodion ynghyd ag achrediad i helpu i warchod rhag seiber-ymosodiad
- cwblhau newidiadau hanfodol i lwyfan llaw ein gweithrediad, gan ddefnyddio'r cyfle hwn i wneud y gorau o'n cynnwys a'i hygyrchedd
- cyflwyno gwaith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau'r llywodraeth ac yn cryfhau rheolaethau mewnol
- rhoi ein strategaeth ystadau a ffyrdd newydd o weithio ar waith, gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hystad yn unol ag agenda Lefelu i Fyny gan y Llywodraeth.
- cynnal adolygiad strategol canol blwyddyn o'n gwariant i sicrhau bod ein dyheadau yn cyfateb i'r adnoddau sydd ar gael i ni

## Sut byddwn yn mesur ein cynnydd

**Rydym yn anelu at:**

- gyflawni sgôr ymgysylltu â staff o 69% (fel y'mesurwyd gan ein harolwg staff blynyddol)
- sicrhau bod 80% o'n hymchwilwyr yn cyflawni achrediad o fewn 24 mis
- gwella cyfran ein pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig tuag at gynrychiolaeth sy'n cyfateb i ddemograffeg ardaloedd trefol (fel y mesurwyd gan ddata cyfrifiad 2021).

# Ariannu a risg

## Ariannu

Cawn ein hariannu gan y Swyddfa Gartref drwy gymorth grant.

Yn 2022/23, bydd yr IOPC yn derbyn cyllid refeniw o £69.645m. Bydd cyllidebau'n cael eu dirprwyo i gyfarwyddwyr a fydd yn cael eu neilltuo i gyflawni'r prosiectau a gwaith arall a nodir yn y Cynllun Busnes hwn.

| **Cyllideb IOPC 2022/23** | **£m** |
|---|---|
| Grŵp swyddfa breifat | 1.298 |
| Gweithrediadau | 28.570 |
| Llywodraethol | 4.022 |
| Strategaeth ac effaith | 11.071 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 6.571 |
| ICT | 8.254 |
| Ystadau | 6.704 |
| Gweithrediadau Hillsborough | 3.205 |
| Incwm | (0.050) |
| **CYFANSWM** | **69.645** |

# Risgiau

Mae’r IOPC yn parhau i fod yn agored i ystod eang o risgiau. Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwaith a nodir yn y Cynllun Busnes hwn, byddwn yn parhau i ddefnyddio ein fframwaith rheoli risg. Mae ein pwyllgor archwilio a sicrwydd risg yn goruchwylio’r fframwaith ac yn ein cefnogi i nodi, asesu a rheoli risgiau sy’n dod i’r amlwg a risgiau sy’n newid. Mae'r fframwaith yn cynnwys ein polisi rheoli risg, rydym yn ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau yn y ffordd rydym yn cyflawni ein gwaith. Mae hefyd yn cynnwys ein datganiad archwaeth risg, sy'n ein galluogi i ystyried pa weithgareddau y byddwn yn ymgymryd â nhw a'r lefelau risg rydym yn barod i'w dderbyn i yrru gweithgaredd yn ei flaen.

Byddwn yn rheoli risgiau sydd â’r potensial i leihau ein gallu i gyflawni ein hamcanion strategol yn y meysydd allweddol canlynol:

# Adnoddau

## Eleni

Mae gennym setliad arian parod gwastad eleni wedi’i osod yn erbyn chwyddiant unwaith mewn cenhedlaeth, marchnad swyddi heriol, a galw a chymhlethdod cynyddol ar draws ein gwaith. Gan fod y rhan fwyaf o'n gwariant ar ein staff, mae perygl y gallwn ei chael hi'n anodd gwario ein cyllideb os na allwn recriwtio'n llwyddiannus. Gall y gostyngiad mewn termau gwir yn ein cyllid hefyd arwain at anallu i fodloni gofynion cyflog y farchnad i ddenu a chadw staff o ansawdd uchel.

Gan na allwn gystadlu’n ariannol, i liniaru’r risg hon byddwn yn cadw’r cydweithwyr medrus a phrofiadol sydd gennym ac yn eu hannog i adeiladu gyrfa gyda’r IOPC. Byddwn yn adolygu cyfleoedd dilyniant gyrfa ar gyfer ein staff ymchwiliol er mwyn gwobrwyo arbenigedd yn well a chreu gyrfaoedd hir dymor i gydweithwyr. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ein holl gydweithwyr, yn ogystal â gwella ein cyfleoedd datblygu rheolwyr ac arweinwyr.

## Blynyddoedd dyfodol

Rydym yn disgwyl setliadau arian gwastad yn y blynyddoedd i ddod ac felly bydd angen i ni ystyried ein gwariant yn ofalus i weld lle gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod – os na, bydd ein gallu i fuddsoddi mewn meysydd allweddol o’n strategaeth yn cael ei leihau ymhellach.

Eleni byddwn yn datblygu cynllun gwariant ac effeithlonrwydd strategol i sicrhau y gallwn barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd ac ariannu buddsoddiadau angenrheidiol.

# Gofynion ar yr IOPC

## Pwysau gweithredol

Mae cymhlethdod ein gwaith gweithredol craidd yn parhau i gynyddu. Mae natur ein llwyth achosion hefyd yn newid. Mae ffactorau achos megis gwahaniaethu ar sail hil, cam-drin safle o ddiben rhywiol, iechyd meddwl a cham-drin domestig/ rhywedd yn ymddangos yn amlach. Mae hyn yn arwain at fwy o ymchwiliadau aml-faes, mwy o dystiolaeth ddigidol a'r angen i gefnogi tystion mwy agored i niwed. Mae hyn yn effeithio ar ein gallu i gwblhau ymchwiliadau mewn cyfnodau amser byrrach ac, yn ei dro, yn creu pwysau mewn mannau eraill yn y system, er enghraifft, yr angen i heddluoedd ddod o hyd i dystiolaeth a’i rhannu, yn enwedig deunydd digidol (fel CCTV ).

Mae’r galw yn y system yn parhau i dyfu, gyda niferoedd atgyfeirio’n cynyddu yn 22/23 a disgwylir 500 o atgyfeiriadau ychwanegol eleni o gymharu â 2021/22. Rydym hefyd yn cario llwyth achosion ôl-derfynol mawr oherwydd oedi mewn mannau eraill yn y system, a waethygwyd gan y pandemig.

Rydym wedi buddsoddi ac yn recriwtio i gynyddu capasiti i ôl-lenwi trosiant uchel mewn rhai meysydd, ond bydd adnoddau'n cymryd amser i ymuno â nhw, hyfforddi a dod yn weithredol. Disgwyliwn i 22/23 fod yn flwyddyn heriol i ni o ran cyflawni. Mae'r mesurau a'r targedau rydym wedi'u gosod, yn ein barn ni, yn gyraeddadwy. ond gallai amrywiadau pellach yn y galw, natur ein gwaith a'r farchnad swyddi beri risg i'r nodau hyn.

## Adolygiadau

Mae risg y bydd yr ôl-groniad presennol yn ein hadolygiadau o lwyth gwaith yn cael effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gall y ffocws dilynol ar amseroldeb effeithio ar ein gallu i gynnal ansawdd a chysondeb ar draws ein busnes gweithredol, gan danseilio ein hamcan atebolrwydd.

Rydym eisoes wedi datblygu cynllun trawsnewid ac yn buddsoddi mewn recriwtio sylweddol i helpu i wella profiad defnyddwyr gwasanaeth cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn adolygu ein prosesau i'w symleiddio a'u symleiddio, lle ei fod yn bosibl, i sicrhau bod gwelliannau perfformiad yn cael eu cynnal hyd yn oed os bydd amgylchiadau allanol yn newid.



Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

## Mwy o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am y cynllun hwn mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**www.policeconduct.gov.uk**

Dilynwch ni:

Twitter: **@policeconduct**

Instagram: **@policeconduct**

E-bostiwch ni: **enquiries@policeconduct.gov.uk**

Ffoniwch ni: **0300 020 0096**

Negeseuwch: **18001 0207 166 3000**

Ysgrifennwch atom yn:

**IOPC**
**PO Box 473**
**Sale M33 0BW**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg.
We welcome telephone calls in Welsh.

Chwefror 2023

**© IOPC 2023**

OGL Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.

Nid yw hyn yn cynnwys deunydd ar y wefan hon fel deunydd sy'n perthyn i drydydd partïon. Rhaid cael caniatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE® CSE